**Pwyllgor Diwylliant-CC-10-02(p.4)**

**Dyddiad:** 15 Mai 2002

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2

**Teitl:** Papur ymgynghori ar Strwythur Strategol ac Ymgynghorol i Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifdai yng Nghymru

## Diben

1. Clywed safbwyntiau'r pwyllgor ar bapur ymgynghori'r Gweinidog 'Strwythur Strategol ac Ymgynghorol i Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifdai yng Nghymru' (amgaeir copi).

## Cefndir

2. Mae'r papur ymgynghori yn nodi cychwyn y broses i ganfod y trefniadau gorau i bennu a gweithredu polisi a chefnogaeth i'r 500 a mwy o amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifdai lleol yng Nghymru.

3. Yn 2000 crewyd Resource: Cyngor Amgueddfeydd, Archifdai a Llyfrgelloedd yn lle Comisiwn yr Amgueddfeydd ac Orielau (a wasanaethai'r DU yn gyfan) a Chomisiwn y Llyfrgelloedd a Gwybodaeth (a wasanaethai Loegr a Gogledd Iwerddon ond â chynrychiolwyr o Gymru ar ambell i bwyllgor) a oedd hefyd yn cwmpasu archifdai. Fe'i noddir gan yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Mae ganddo gylch gorchwyl eang, tebyg i rai y cyrff blaenorol, and mae llawer o'i weithgareddau yn berthnasol i Loegr yn unig. Mae gan Resource (2001/02) gyllideb flynyddol o £23.5 miliwn, a 65 o staff yn Llundain a tua 135 o staff yn rhanbarthau Lloegr.

4. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn ariannu Cyngor Amgueddfedydd Cymru (CMW) sydd yn gweithio ag amgueddfeydd lleol, a Chorff Cyhoeddus ymgynghorol y Gweinidog Diwylliant a Noddir gan y Cynulliad, sef Cyngor Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgelloedd (Cymru) (LISC). Mae gan CMW gyllideb o tua £622,000 (2001/02) a 10 o staff. Mae cyllideb o £30,000 gan LISC ond dim staff, heblaw am ysgrifenyddes ran amser sy'n cael ei darparu gan Lywodraeth y Cynulliad. Does dim corff ar gyfer archifdai yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad.

5. Dosbarthwyd y papur ymgynghori i'r rheini sydd â diddordeb mewn amgueddfeydd,

llyfrgelloedd ac archifdai yng Nghymru. Cafodd ei baratoi mewn trafodaeth ag aelodau Grwp Ymgynghorol y Gweinidog ar Adnoddau fel unigolion, fel y'u rhestrir yn Atodiad 1. Mae'r papur ymgynghori yn nodi tri opsiwn yn Adran 5. Bydd rhaid dibynnu ar ba adnoddau a fydd ar gael yng Nghylch Cynllunio'r Gyllideb er mwyn rhoi opsiwn 2 neu 3 ar waith. Bydd angen yr ymatebion erbyn 28 Mehefin 2002.

6. **Mae'r Gweinidog am glywed barn y Pwyllgor Diwylliant, yn enwedig ar y cwestiynau sydd yn y papur ymgynghori, ac sy'n cael eu rhestru yn Atodiad 3.**